Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Papur y Bwrdd

(6 / 7 Gorffennaf 2016)

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | **Datganiad Safbwynt ynghylch Trawsleoliadau Cadwraethol** |
| **Cyfeirnod y papur:** | **NRW B B 44.16** |
| **Paratowyd y papur gan:** | **Ceri Davies** |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | Ruth Jenkins |

| | |
|---|---|
| **Diben y papur:** | **Penderfyniad** - Rydym angen datblygu safbwynt clir ynghylch trawsleoliadau cadwraethol a'r egwyddorion a roddir ar waith gennym. |
| **Argymhelliad:** | Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo'r Datganiad Safbwynt ynghylch trawsleoliadau cadwraethol.<br>Os caiff ei gymeradwyo, bydd y nodyn cyfarwyddyd gweithredol yn cael ei gadarnhau a'i gyhoeddi gyda'r datganiad safbwynt. |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Dylid nodi na fydd pob pennawd efallai'n berthnasol i'r pwnc | Sut y mae'r cynigion sydd yn y papur hwn yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni egwyddorion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran:<br><br>**Ystyried yr <u>hirdymor</u>:** Mae'n bosibl mai trawsleoliadau cadwraethol fydd yr unig ffordd o hybu cydnerthedd mewn poblogaeth gan sicrhau mantais ddilynol ar gyfer amcanion bioamrywiaeth trwy wella cydnerthedd ecolegol, ond rhaid archwilio pob mesur amgen yn gyntaf.<br>Mae prosiectau trawsleoli cadwraethol yn ymrwymiadau hirdymor o'u rhan eu hunain ac os ydynt yn llwyddiannus mae'r manteision, neu'r canlyniadau, yn para'n hir ac yn gallu bod yn ehangach na'r gwaith o warchod rhywogaeth, oherwydd gall y gwaith ddatblygu cydnerthedd poblogaethau sy'n gallu ysgogi manteision ehangach i Gymru. |

| | |
|---|---|
| | **Gweithredu mewn modd <u>integredig</u>:** Mae'r Safbwynt Polisi yn egluro sut y byddwn yn cymryd cyngor o bob rhan o'r sefydliad ac o fannau eraill hefyd i wneud penderfyniadau ar draws ein holl swyddogaethau, a all helpu i hybu manteision ehangach ac osgoi heriau pellach.<br><br>**Cynnwys <u>amrywiaeth</u> o'r boblogaeth:** Gallai mwy o gydweithredu fod yn fanteisiol i gynigion, ac er y byddant yn cael eu hasesu fesul achos ar sail meini prawf a chanllawiau clir sydd wedi ennill eu plwyf, gall dealltwriaeth ehangach ar draws sectorau o'r heriau a'r manteision fod yn ddefnyddiol.<br>Rhaid bod ymarfer ymgynghori â'r gymuned a chymdogion, ar raddfa sy'n briodol i'r trawsleoliad, yn rhan o unrhyw gynnig fel bod modd gwireddu manteision ychwanegol a lleddfu pryderon lle bo'n briodol.<br><br>**Gweithio mewn modd <u>cydweithredol</u>:** Trwy ddarparu dealltwriaeth glir o'r ffon fesur ar gyfer asesu cynigion, bydd yn haws i ymgeiswyr benderfynu ynghylch dichonoldeb cynigion. Mae ein rolau'n cynnwys gweithio gyda rhanddeiliaid ar eu cynigion neu'u cynghori yn eu cylch, gyda phwyntiau cyswllt clir ac yn unol â phroses a safon gyson.<br><br>**<u>Atal</u> problemau rhag digwydd:** Trwy ddilyn meini prawf a chanllawiau sydd wedi ennill eu plwyf yn rhyngwladol, byddwn yn osgoi trawsleoliadau amhriodol a chostus os gallai mesurau amgen fod yn ddigonol. Bydd eglurder ynghylch yr hyn a ddisgwylir a dealltwriaeth glir o'n proses gwneud penderfyniadau'n atal unrhyw ymrwymiad cyn bod asesiad llawn yn cael ei gwblhau. |

**<u>Mater</u>**

1. Trawsleoliadau cadwraethol yw camau bwriadol gan bobl i symud organebau byw o un ardal er mwyn eu rhyddhau mewn ardal arall. Yr amcan pennaf yw sicrhau mantais o ran cadwraeth trwy adfer poblogaeth yng nghynefin brodorol y rhywogaeth neu gymryd camau bwriadol i gyflwyno rhywogaeth i ardal sydd y tu allan i'w chynefin brodorol, er mwyn gwella cydnerthedd ecolegol. Nid ystyrir bod hwyluso mantais economaidd uniongyrchol neu drawsleoliadau at ddibenion diddordeb academaidd yn gwella cydnerthedd ecolegol. Felly, nid ydynt yn bodloni'r diffiniad o drawsleoliadau cadwraethol. Mae angen i ni gyfleu ein safbwynt ynghylch trawsleoliadau cadwraethol mewn pedair prif rôl – fel rheoleiddiwr, fel rheolwr tir, fel cynghorydd ac o ran ein cysylltiad posibl â chyflawni prosiectau'n uniongyrchol. Mae angen i aelodau o staff, rhanddeiliaid a'r cyhoedd ddeall yr egwyddorion arweiniol y byddwn yn eu gweithredu, a deall sut y byddwn yn ystyried cynigion ynghylch partneriaethau neu brosiectau a cheisiadau am drwyddedau. Mae Atodiad 1 yn nodi'r gwaith a gyflawnwyd yn ddiweddar ar drawsleoliadau cadwraethol.

## Cefndir

2. Rydym dan rwymedigaeth statudol i ystyried ceisiadau am drwyddedau sy'n ymwneud â thrawsleoliadau (er enghraifft, cymryd rhai anifeiliaid neu feddu arnynt) dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (a ddiwygiwyd yn 1985) ac sy'n ymwneud â rhywogaethau dan warchodaeth Ewropeaidd dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010. Mae Cyfarwyddeb Cynefinoedd y CE yn rhoi dyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru i gynnal statws cadwraethol ffafriol cynefinoedd a rhywogaethau Ewropeaidd neu'u hadfer i'r statws hwnnw, ac mae'r Gyfarwyddeb Adar yn mynnu bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn atal poblogaethau adar a restrir yn Atodiad 4(4) rhag dirywio. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn mynnu bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth ym mhob un o'n gweithgareddau gan hybu cydnerthedd ecosystemau; mae hynny'n cynnwys y modd yr ydym yn rheoli tir (Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol ac asedau eraill), y cyngor a ddarperir gennym a'r modd yr ydym yn gweithredu egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy wrth gyflawni ein swyddogaethau. Rhaid i'n penderfyniadau fod yn seiliedig ar ddadansoddiad cadarn o bob cynnig, sy'n adlewyrchu pwrpas ac egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a pholisi a deddfwriaeth berthnasol arall.

3. Mae'r egwyddorion ar gyfer ein Datganiad Safbwynt yn dilyn canllawiau a gydnabyddir yn rhyngwladol ac a ysgrifennwyd gan yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur, ac maent yn gydnaws â'r gwaith o gyflawni polisi Llywodraeth Cymru (LlC) a'n hamcanion corfforaethol. Caiff y canllawiau hyn eu defnyddio ledled Lloegr a'r Alban hefyd. Byddwn yn gweithredu'r egwyddorion hyn wrth ymdrin â phob cais perthnasol am drwydded a phob cynnig perthnasol ynghylch prosiect, gan gynnwys y rhai yr ydym ni'n eu cyflawni, naill ai mewn partneriaeth neu ar ein pen ein hunain. Dylai ystyriaethau ynghylch parhau i fuddsoddi sicrhau bod prosiectau a rhaglenni wedi cael eu hasesu gan ddefnyddio'r egwyddorion hyn.

4. Mae'r Datganiad Safbwynt, yn Atodiad 2, yn cyfuno'r egwyddorion arweiniol a'r cyd-destun o ran polisi a bydd yn cael ei ategu gan Nodyn Cyfarwyddyd Gweithredol (mae drafft ohono i'w weld yn Atodiad 3) sy'n rhoi cyfarwyddyd i staff ynghylch y broses gwneud penderfyniadau ar gyfer ystyried cynigion ynghylch trawsleoliadau cadwraethol. Byddwn yn gweithredu egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy gan ystyried tystiolaeth, ystyried canlyniadau tymor byr, canolig a hir y penderfyniad ac, fel y bo'n briodol, ymgysylltu â rhanddeiliaid. Rydym yn disgwyl i raddau rhesymol y bydd hyrwyddo ein datganiad safbwynt yn lleihau trafodion cynghori oherwydd bod darpar ymgeiswyr yn deall yn iawn beth sy'n ofynnol.

## Asesiad

5. Mae trawsleoliadau cadwraethol, trwy ddiffiniad, yn sicrhau manteision i boblogaeth y rhywogaeth a gaiff ei thrawsleoli neu'r ecosystemau sy'n derbyn y trawsleoliad, gan wella bioamrywiaeth a gwella cydnerthedd yr ecosystemau y mae bioamrywiaeth yn eu cynnal. Yn ogystal, mae ganddynt y potensial i sicrhau manteision cadarnhaol i lesiant trwy hybu'r gwaith o reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy a hybu manteision uniongyrchol megis ecodwristiaeth. Fodd bynnag, mae risgiau'n perthyn i'r gwaith o

weithredu cynlluniau trawsleoli, ac mae angen asesu'r risgiau hynny a'u lliniaru lle bo angen. Mae canllawiau'r Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur yn pwysleisio'r angen i ystyried mesurau heblaw trawsleoli oherwydd y costau a'r risgiau sydd ynghlwm wrtho:

> Yn ôl y canllawiau, dim ond os eir i gostau mawr ac os caiff risgiau sylweddol eu cymryd y bydd llawer o drawsleoliadau cadwraethol yn esgor ar fantais o ran cadwraeth. Felly, ni waeth pa flaenoriaeth o ran cadwraeth a bennwyd i'r rhywogaeth, dylai unrhyw drawsleoliad arfaethedig gael ei gyfiawnhau trwy ei gymharu ag atebion amgen.

6. Mae canllawiau'r Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur yn annibynnol, maent wedi'u hadolygu'n eang gan gymheiriaid, ac maent yn cael eu defnyddio fel canllawiau ynghylch trawsleoliadau cadwraethol mewn llawer o wledydd. Maent yn egluro'r materion y dylid eu hystyried wrth benderfynu a ddylid trawsleoli rhywogaeth ac maent yn disgrifio'r camau ar gyfer cynllunio a gweithredu prosiect trawsleoli. Mae hynny'n cynnwys asesu a lliniaru risgiau, cysylltu â rhanddeiliaid, monitro, a darparu cynllun ymadael.

7. Dylai mesurau heblaw trawsleoli gael eu gwerthuso wrth benderfynu a ddylid defnyddio trawsleoliad ai peidio. Mae'r mesurau hynny'n cynnwys dymuniad i flaenoriaethu rhagor o waith adfer cynefinoedd, sy'n hybu cydnerthedd trwy, er enghraifft, lefelau uwch o gysylltedd; gwella amodau er mwyn annog prosesau cytrefu naturiol; neu gael gwared â phwysau megis rhywogaethau estron goresgynnol. Os oes amodau addas yn bodoli ac os oes angen cymryd camau ailgyflwyno neu atgyfnerthu i sefydlu poblogaeth hyfyw neu os bydd rhywogaeth yn darparu swyddogaeth sy'n ymwneud ag ecosystem, gellir ystyried trawsleoliadau cadwraethol.

8. Mae'r Alban wedi sefydlu Fforwm Cenedlaethol Ailgyflwyno Rhywogaethau sy'n cynnwys 29 o sefydliadau, ac mae'r Fforwm wedi llunio Cod ar gyfer Trawsleoliadau Cadwraethol er mwyn dehongli a gweithredu canllawiau'r Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur. Mae'r Fforwm Cenedlaethol Ailgyflwyno Rhywogaethau yn cyfrannu i faterion strategol, eang sy'n ymwneud ag achosion o ailgyflwyno rhywogaethau, gan gynnwys y broses gwneud penderfyniadau ar gyfer unrhyw brosiectau ailgyflwyno cenedlaethol newydd.

9. Nid oes cod na phroses debyg gan Natural England ond mae'n cael nifer o gynigion ynghylch ailgyflwyno rhywogaethau. Mae wedi datgan y bydd unrhyw achosion o ailgyflwyno rhywogaethau'n cael eu hystyried yn unol â'r ddeddfwriaeth sydd mewn grym a chanllawiau rhyngwladol. Mae'n cydnabod bod angen ystyried rhai achosion o ailgyflwyno rhywogaethau o safbwynt eu heffaith ar draws y DU gyfan.

10. Er y gallai fod yn ddymunol gweithredu rheol syml megis un dull cyffredinol o ymdrin â phob trawsleoliad posibl, sef gwrthod rhoi caniatâd, mae'r amrywioldeb sy'n perthyn i gynigion a'r risgiau a'r manteision sydd ynghlwm wrthynt yn golygu bod yn rhaid i bob cynnig gael ei asesu yn ôl ei haeddiant ei hun.

11. Byddwn yn defnyddio canllawiau'r Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur yn sail ar gyfer asesu cynigion yn ein pedair rôl:

a) **Fel rheoleiddiwr:** Bydd angen i drawsleoliadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid neu blanhigion gwyllt a restrwyd yn Atodlenni Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) sy'n cynnig rhywfaint o warchodaeth iddynt – Atodlen 1 (adar a warchodir), Atodlen 5 (anifeiliaid a warchodir), Atodlen 6 (anifeiliaid na cheir eu lladd na'u cymryd trwy ddulliau penodol) ac Atodlen 8 (planhigion a warchodir) – gael trwydded gennym ni ar gyfer rhai gweithgareddau. Mae Adran 14 y Ddeddf yn mynd i'r afael ag achosion o gyflwyno rhywogaethau nad ydynt fel rheol yn byw yn y cynefin dan sylw neu'r rhai a restrwyd yn Atodlen 9 (anifeiliaid a phlanhigion sydd wedi ymsefydlu yn y gwyllt) a bydd angen trwydded gennym ni yng nghyswllt y rheini hefyd. Mae Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 yn rhoi dyletswydd arnom i ystyried ceisiadau am drwyddedau sy'n ymwneud â rhywogaethau dan warchodaeth Ewropeaidd. Mae dyletswydd arnom i asesu ceisiadau'n unol â'n rhwymedigaethau statudol.

b) **Fel rheolwr tir:** Os caiff prosiect ei gynnig ar dir a reolir gennym, dylem weithredu egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ac ystyried unrhyw oblygiadau o safbwynt sut y gallai'r cynnig effeithio ar y modd yr ydym yn rheoli ac yn cyflawni amcanion corfforaethol a pholisi Llywodraeth Cymru. Bydd hynny'n cynnwys asesu effaith ariannol.

c) **Fel cynghorydd:** Mae partïon eraill yn ymgynghori â ni'n gynnar wrth ddatblygu prosiect, ac mae hynny i'w groesawu. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn rhoi cyngor cyson i randdeiliaid, felly mae penodi swyddog arweiniol ar gyfer unrhyw brosiect yn bwysig er mwyn sicrhau bod partïon sydd â diddordeb yn cael yr un neges. Mae angen gwahanu rolau'n glir os oes angen i'r prosiect gael trwydded gennym.

ch) **Fel corff sy'n cyflawni prosiectau:** Efallai y byddwn yn penderfynu y dylem gymryd rhan yn y gwaith o gyflawni trawsleoliad cadwraethol, naill ai mewn partneriaeth neu ar ein pen ein hunain. Nid oes rheidrwydd cyfreithiol arnom i ymgymryd â thrawsleoliadau cadwraethol; yn hytrach maent yn opsiwn sydd ar gael i hybu bioamrywiaeth a chydnerthedd ecolegol. Dylai'r un broses o ddatblygu prosiect yn unol â chanllawiau'r Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur ddigwydd. Bydd hynny'n helpu i benderfynu ai trawsleoli yw'r dull mwyaf priodol o gyflawni'r amcan. Bydd y cynnig yn cael ei asesu gan ddefnyddio'r un meini prawf ar gyfer ein prosiectau ni â'r rhai yr ydym yn eu defnyddio ar gyfer unrhyw gynnig arall.

12. Wrth ystyried cynigion, byddwn yn asesu'r effaith ar ymrwymiadau rhyngwladol ac Ewropeaidd yn ogystal â blaenoriaethau domestig.

13. Rydym yn cydnabod y gallai rhai trawsleoliadau esgor ar effaith ar draws y DU, a byddwn yn sefydlu system i gysylltu â chyrff cadwraeth natur statudol eraill y DU ynghylch achosion o ailgyflwyno rhywogaethau.

**Argymhelliad**

14. Dylid cymeradwyo'r Datganiad Safbwynt ynghylch trawsleoliadau cadwraethol sydd yn Atodiad 2. Bydd y Nodyn Cyfarwyddyd Gweithredol (drafft) yn Atodiad 3 yn darparu manylion llawn y staff a fydd yn ystyried cynigion allanol ac achosion busnes mewnol

dros drawsleoliadau cadwraethol, a thempledi i ddarparu llwybr archwilio ar gyfer pob achos.

### Prif risgiau

15. Mae'r Datganiad Safbwynt yn rhoi eglurder i randdeiliaid a staff ynghylch y modd yr ydym yn asesu ceisiadau neu gynigion sy'n ymwneud â thrawsleoli rhywogaethau yng Nghymru. Mae hynny'n sicrhau proses glir a theg sy'n cyd-fynd ag arfer da a pholisi cyfredol y llywodraeth. Heb safbwynt clir, ni fydd gennym broses gadarn a chyson i reoli cynigion a cheisiadau am drwyddedau, y cyfryngau a diddordeb gwleidyddol.

### Goblygiadau ariannol

16. Mae'r Datganiad Safbwynt a'r Nodyn Cyfarwyddyd Gweithredol yn gosod fframwaith cyson ar gyfer cynigion yn fewnol ac yn allanol. Mae'r broses yn sicrhau un pwynt cyswllt ar gyfer y cynigydd neu'r ymgeisydd. Mae'r costau yn deillio'n bennaf o amser y staff neu, yn achos cynigion mewnol, yr angen i gynhyrchu'r dystiolaeth i gefnogi prosiect. Mae arbedion effeithlonrwydd yn debygol o gael eu sicrhau trwy ddarparu disgwyliadau clir ynghylch y math o dystiolaeth ac ansawdd y dystiolaeth sy'n ofynnol i gefnogi cynnig llwyddiannus, a'r modd y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud. Dylai gweithio'n ehangach ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban i sicrhau dull cyson o weithredu hybu rhagor o effeithlonrwydd.

### Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

17. Mae gwaith sgrinio'n ymwneud ag asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i gyflawni yng nghyswllt y datganiad safbwynt, a chanfu nad oedd angen cynnal asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb.

### Mynegai i'r Atodiadau

Atodiad 1: Gwaith ac achosion diweddar sy'n ymwneud â thrawsleoliadau cadwraethol
Atodiad 2: Datganiad Safbwynt ynghylch Trawsleoliadau Cadwraethol
Atodiad 3: Nodyn Cyfarwyddyd Gweithredol (drafft nes y bydd y datganiad safbwynt yn cael ei gymeradwyo)